

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER AMFFIBIAID AC YMLUSGIAID

Cyflwyniad

Mae amffibiaid ac ymlusgiaid (sydd gyda'i gilydd yn cael eu galw'n herpetoffawna) yn grŵp hynafol o anifeiliaid ac mae rhywogaethau o'r naill grŵp a'r llall i'w cael yn Sir Gaerfyrddin. Y rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth â blaenoriaeth a geir yn y sir yw'r madfall, y neidr ddefaid, neidr y gwair, y wiber a'r llyffant dafadennog.



Maen nhw'n byw mewn amrywiaeth o gynefinoedd, o byllau dŵr a glaswelltir llaith i rostir, twyni tywod a chloddiau, ymylon ffyrdd, rhodfeydd drwy goetiroedd ac ymylon coetiroedd, rhandiroedd, gerddi a safleoedd tir llwyd.

Mae amffibiaid ac ymlusgiaid yn ne Cymru wedi dioddef oherwydd colli cynefin a darnio cynefin. Collwyd cynefin i ddatblygu, mae gerddi wedi cael eu gorchuddio â cherrig palmantu neu ystyllod pren, parciau wedi cael eu 'cymhennu' ac arferion amaethyddol wedi newid, ac mae hyn oll wedi effeithio ar y rhywogaethau o amffibiaid ac ymlusgiaid sy'n defnyddio'r cynefinoedd hyn.

Mae colli'r cynefinoedd hyn hefyd wedi arwain at ddarnio ac ynysu poblogaethau, sy'n gallu arwain at ddirywiad a rhywogaethau'n marw o'r tir yn lleol.

Yng Nghymru mae [Atlas Ar-lein](#) wedi cael ei ddatblygu gan Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid lle mae modd cyflwyno cofnodion. Mae'r atlas yn nodi bylchau ar gyfer ymdrechion arolygu i'r dyfodol.

Mae'n ofyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol, fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol/polisi, fod arolygon yn cael eu cynnal fel rhan o'r broses gynllunio yng nghyswllt ceisiadau sydd â'r potensial i effeithio ar ymlusgiaid.

Datganiad gweledigaeth ac amcanion

Byddem yn hoffi cael darlun mwy cyflawn o amrywiaeth a dosbarthiad ein poblogaethau herpetoffawna ac i sicrhau eu bod yn parhau'n hyfyw drwy gadw, creu a gwella cynefin cydgyssylltiedig ar eu cyfer, yn cynnwys safleoedd bwydo, bridio a gaeafgysgu. Byddai unrhyw gamau a gymerir yn ceisio cyflawni un neu rador o'r amcanion isod:

HERP1 Cynnal a chynyddu poblogaethau herpetoffawna Sir Gaerfyrddin

HERP2 Casglu data am ddosbarthiad a statws herpetoffawna Sir Gaerfyrddin

HERP3 Codi ymwybyddiaeth o statws a gofynion herpetoffawna yn Sir Gaerfyrddin a darparu cyngor ar reoli cynefin.

Crynodeb o'r camau sydd wedi'u cyflawni gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Arwyddion llyffantod dafadennog ar y ffordd – gosodwyd arwyddion ar 3 safle yn y sir – Cyngor Sir Caerfyrddin HERP1
- [Prosiect Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#) – cynefin wedi’i greu i amffibiaid ac ymlusgiaid, creu pyllau dŵr HERP1
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel – arolwg ymlusgiaid; canfuwyd poblogaeth fawr o nadroedd defaid – yr Ymddiriedolaeth Glaswelltiroedd HERP2
- Llyfryn dosbarthiad amffibiaid/ymlusgiaid i bob ysgol/llyfrgell – Cyngor Sir Caerfyrddin HERP3

2013

- Diwrnodau hyfforddi i wirfoddolwyr ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain – Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid/ Cyngor Sir Caerfyrddin HERP3

2014

- Gosodwyd arwyddion rhybuddio ynghylch llyffantod dafadennog ar y ffordd ym Mhant-y-Llyn – CSC

2015

- Pyllau / pyllau bas / pentyrrau cynefin wedi’u greu ym Morfa Berwig, Bynea – CSC/ARC HERP1
- Drwy brosiect Cysylltiadau Pyllau Cronfa Natur Llywodraeth Cymru, crëwyd dau bwll ym Mhen-bre CP a dwy fferm dros Llanddeusant HERP1

Gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol

- Pentyrrau cynefin ar gyfer nadroedd y gwair i’w creu ar safleoedd arfordirol a reolir gan Gyngor Sir Caerfyrddin - Cyngor Sir Caerfyrddin HERP1
- Creu/gwella nodweddion addas ar gyfer amffibiaid/ymlusgiaid mewn parciau gwledig – Cyngor Sir Caerfyrddin HERP1
- Prosiect ysgolion – creu a monitro cynefin i amffibiaid/ymlusgiaid gyda disgyblion HERP2
- Codi ymwybyddiaeth o nadroedd defaid ymysg grwpiau rhandiroedd – Cyngor Sir Caerfyrddin HERP3
- Hyrwyddo’r Cynllun Cenedlaethol Cofnodi Amffibiaid ac Ymlusgiaid HERP2
- Trefnu sesiwn i swyddogion cynnal tiroedd Cyngor Sir Caerfyrddin ar ecoleg amffibiaid ac ymlusgiaid – Cyngor Sir Caerfyrddin HERP3
- Monitro/arolwg o Barc Arfordirol y Mileniwm gan wirfoddolwyr wedi’u hyfforddi – Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid HERP2

Deddfwriaeth ar gyfer ymlusgiaid ac amffibiaid cyffredin

(h.y. ymlusgiaid (gwiber, neidr y gwair, madfall a neidr ddefaid) ac amffibiaid (broga, llyffant dafadennog, madfall ddŵr gyffredin, madfall ddŵr balmog).

Caiff ymlusgiaid yn unig (gwiber, neidr y gwair, madfall a neidr ddefaid) eu gwarchod drwy ran o Adran 9(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y’i diwygiwyd) rhag:

(a) lladd neu anafu bwriadol (noder nad yw’r ddarpariaeth yn Adran 9(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy’n gwahardd “cymryd” yn gymwys i ymlusgiaid).

Caiff ymlusgiaid (gwiber, neidr y gwair, madfall a neidr ddefaid) ac amffibiaid (broga, llyffant dafadennog, madfall ddŵr gyffredin, madfall ddŵr balmog) eu gwarchod drwy ran o Adran 9(5) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y’i diwygiwyd) rhag:

(b) (i) eu gwerthu, eu cynnig neu eu datgelu i'w gwerthu, neu fod â meddiant ohonynt neu eu cludo i'r diben o'u gwerthu, unrhyw anifail gwyllt byw neu farw neu unrhyw ran o anifail o'r fath, neu unrhyw beth yn deillio o anifail o'r fath;
neu (ii) cyhoeddi neu achosi i gael ei chyhoeddi unrhyw hysbyseb sy'n debygol o gael ei deall fel pe bai'n cyfleu prynu neu werthu, neu fwriad i brynu neu werthu, unrhyw un o'r pethau hynny.

Dolenni defnyddiol:

- Sut mae adnabod [amffibiaid ac ymlusgiaid](#)
- [Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)
- [Froglife](#)
- [Cymru Ar-lein: Atlas Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae [Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) yn cynnwys y sefydliadau canlynol:
[Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöymnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)